

Cynllun Gwella Pont Afon Dyfrdwy A494 - Ymgynghoriad Cyhoeddus

A494 River Dee Bridge Improvement Scheme – Public Consultation



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Croeso

Mae Llywodraeth Cymru ac Asiant Cefnffyrd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn eich croesawu i'r digwyddiad ymgynghori cyhoeddus hwn.

Rydym yn cynnal y digwyddiad hwn i gyflwyno ein dewis arfaethedig ar gyfer croesfan yr A494 dros Afon Dyfrdwy ac rydym yn ceisio'ch adborth ar ein cynnig.

Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg tan hanner nos ddydd Llun 4 Chwefror 2019.

Cyflwyniad ac hanes byr o'r bont

Mae'r A494 ynghyd â'r A55 a'r A550 yn ffurfio corridor allweddol rhwng Queensferry ac Ellesmere Port, ac mae'n gyswllt rhwng Gogledd-orllewin Lloegr a gweddill Gogledd Cymru hefyd. Mae'n ffordd gyswllt hanfodol yn ardal Merswy Dyfrdwy sy'n cario cymysgedd o draffig strategol a lleol, gan gynnwys mynediad pwysig i Gaergybi a'r porthladdoedd yn Iwerddon. Defnyddir y llwybr yn drwm hefyd gan ymwelwyr sy'n manteisio ar y nifer o gyrchfannau twristiaid poblogaidd yng Ngogledd Cymru.

Mae croesfan Afon Dyfrdwy, a adeiladwyd yn 1960, yn rhan hanfodol o'r corridor hwn, gan gario oddeutu 61,000 o gerbydau y dydd, llawer mwy nac y cafodd ei gynllunio ar ei gyfer. Yn nodweddiadol, mae'r llif traffig yn fwy ar yr A494 o'i gymharu â'r A55 (44,000 i'r dwyrain o Brychdyn) a Phont y Fflint (13,500).



Welcome

The Welsh Government and the North and Mid Wales Trunk Road Agent welcome you to this public consultation event.

We are holding this event to present our proposed option for replacing the A494 crossing of the River Dee and are seeking your feedback on our proposal.

The consultation will run until midnight on Monday 4th February 2019.

Introduction and brief history of the bridge

The A494 together with the A55 and the A550 forms a key corridor between Queensferry and Ellesmere Port, as well as the wider North West of England to the rest of North Wales. It is a major link in the Mersey Dee area carrying a mix of strategic and local traffic including important access to Holyhead and the ports in Ireland. The route is also heavily utilised by visitors accessing the many popular tourist destinations in North Wales.

The River Dee crossing, which was constructed in 1960, forms a critical part of this corridor, carrying approximately 61,000 vehicles per day, far higher than it was designed for. Typically, traffic flows are greater on the A494 compared to the A55 (44,000 east of Broughton) and Flintshire Bridge (13,500).





Cynllun yr A494 Drome Corner i Ewloe a'r Llwybr Coch

The A494 Drome Corner to Ewloe scheme and the Red Route


Cynigiwyd cael pont newydd ar yr A494 dros Afon Dyfrdwy am y tro cyntaf fel rhan o Gynllun Gwella'r A494 o Gornel Drome i Ewloe er mwyn mynd i'r afael â thagfeydd yng nghoridor Sir y Fflint.

Yn dilyn Ymchwiliad Cyhoeddus yn 2007, cytunodd y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth gydag argymhelliaid yr Arolygydd na ddylai'r cynllun fynd ymlaen ymhellach oherwydd yr effaith ar y gymuned leol.

Wedi hyn fe ymgwymerwyd â gwaith pellach i edrych ar opsiynau addas ar gyfer cynyddu capaciti o fewn y corridor a arweiniodd at gyhoeddi'r Llwybr Coch fel dewis gorau Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2017. Mae'r Llwybr Coch yn cynyddu capaciti ar yr A548 presennol gyda ffordd gyswilt newydd i'r A55 yn Llaneurgain.

Nid yw'r Llwybr Coch yn cynnwys cynnig i gael pont newydd fel rhan o'r A494 ar draws Afon Dyfrdwy. Bwriad y Llwybr Coch yw hwyluso tagfeydd o fewn corridor Glannau Dyfrdwy, a'r camau nesaf fydd datblygu cynllun cychwynnol, sy'n ystyried y materion amgylcheddol a pheirianeg yn fwy manwl.

Er bod y 'Llwybr Coch' yn ystyriaeth yn natblygiad Cynllun Croesi'r Afon Dyfrdwy A494, mae dal angen pont newydd yn lle'r un bresennol.



Moving North Wales Forward

Moving North Wales Forward is a Welsh Government strategy which looks to create a reliable and efficient transport network across North Wales, connecting people and businesses to jobs and services. The A494 River Dee Bridge Improvement Scheme, which sets out the need to replace the bridge, is a key measure within the strategy and will form an important part of plans to support the success of North Wales in the future.

Replacing the A494 River Dee bridge was first proposed as part of the A494 Drome Corner to Ewloe Major Improvement Scheme which aimed to address congestion within the Flintshire corridor.

Following a Public Inquiry in 2007, the Minister for Economy and Transport agreed with the Inspector's recommendation that the scheme should not proceed any further due to the impact on the local community.

Further work was then undertaken to look at suitable options to increase capacity within the corridor which led to the announcement of the Red Route as the Welsh Government's preferred option in September 2017. The Red Route increases capacity on the existing A548 with a new road link to the A55 at Northop.

The Red Route does not include any proposal to replace the A494 River Dee Bridge. The Red Route is intended to ease congestion within the Deeside corridor and the next steps will be to develop a preliminary design, which considers the environmental and engineering issues in more detail.

Although the 'Red Route' is a consideration in the development of the A494 River Dee Crossing Scheme, there is still a need to replace the bridge.





Mae croesfan yr A494 dros Afon Dyfrdwy, a adeiladwyd yn 1960, yn ffordd gyswilt hanfodol rhwng Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr. Mae'r groesfan yn cario oddeutu 61,000 o gerbydau y dydd yn cysylltu pobl, cymunedau a busnesau.

Oherwydd oed y bont, mae dystiolaeth o ddirywiad i nodweddion strwythurol allweddol a fyddai'n anodd eu hatgyweirio tra'n cadw'r bont yn agored i draffig.

Mae dec concrit y bont mewn cyflwr gwael sy'n arwain at arwyneb anwastad ac efallai y bydd yn y dyfodol yn effeithio ar gapasiti cludo pwysau'r groesfan. Mae'r ategwaith sy'n cynnal y bont hefyd mewn cyflwr gwael.

Os wnaeon ni ddim, bydd y materion strwythurol hyn yn parhau i waethyg i efallai y bydd angen i ni gyflwyno cyfyngiadau pwysau a / neu gau lonydd i gynnal croesfan Afon Dyfrdwy.

Byddai ailosod y rhannau sydd wedi dirywio yn golygu y bydd angen cau'r A494 am gyfnodau sylweddol, a fyddai'n amharu'n ddifrifol ar ddefnyddwyr y bont a pheri oedi i deithiau ar y bont ac i'r rhai sy'n teithio ar y rhwydwaith ffyrdd lleol. Byddai ailosod rhannau hefyd yn ateb dros dro gan na fyddai'n mynd i'r afael yn llawn â'r materion strwythurol yn y tymor hir.

Yn ychwanegol at y materion strwythurol, nid yw'r bont yn bodloni safonau modern:

- Mae'r lefelau traffig presennol y tu hwnt i gapasiti ffordd ddeuol dwy lôn.
- Nid oes gan y bont gyfleuster llain galed. Pe byddai car yn torri lawr, gallai arwain at dagfeydd hir wrth agosáu at y bont.
- Pan fo tagfeydd yn digwydd, mae'r gwasanaethau brys yn cael trafferth croesi'r bont.
- Mae'r llwybr troed ar y bont yn gul iawn.
- Nid yw'r llain ganol na'r parapetau canolog yn bodloni'r safon.

Credwn mai'r ateb gorau yw adeiladu pont newydd, i wella diogelwch, cryfhau'r ffordd a gwella amseroedd teithio.

The A494 River Dee crossing, which was constructed in 1960, provides a vital connection between North Wales and the North West of England. The crossing carries approximately 61,000 vehicles per day connecting people, communities and businesses.

Due to the age of the bridge, there is evidence of deterioration to key structural features which would be difficult to repair whilst keeping the bridge open to traffic.

The bridge's concrete deck is in a poor condition which results in an uneven surface and may in the future affect the crossing's weight carrying capacity. The abutments which support the bridge are also in a poor state of repair.

If we do nothing, these structural issues will continue to deteriorate and we may need to introduce weight restrictions and/or lane closures to maintain the crossing of the River Dee.

Replacing the deteriorated parts would require the closure of the A494 for significantly long periods, resulting in severe disruption and delays to journeys both for bridge users and for those travelling on the local road network. Replacement of parts would also be a temporary solution as it would not fully address the structural issues in the long term.

In addition to the structural issues, the bridge is not up to modern day standards:

- The current levels of traffic are beyond the capacity of a two lane, dual carriageway.
- The bridge has no hard shoulder facility. A vehicle breakdown can result in long delays causing queues on the approach to the bridge.
- When congestion occurs, emergency services struggle to cross the bridge.
- The footpath on the bridge is very narrow.
- The central reserve and parapets are substandard.


We believe that the best solution is to replace the bridge to improve safety, provide greater resilience and enhance journey time reliability.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru a NMWTRA Mott MacDonald a'u partneriaid, Richards, Morehead a Laing i edrych ar opsiynau ar gyfer pont newydd yr A494 dros Afon Dyfrdwy.

Drwy weithio gyda rhanddeiliaid allweddol megis cynrychiolwyr lleol, busnesau a grwpiau â diddordeb, fe ddatblygon ni ddealltwriaeth o'r problemau presennol i ddefnyddwyr y bont a sut mae'r rhain yn effeithio ar y gymuned leol. Hefyd, fe ystyrión ni'r heriau a allai effeithio ar y bont yn y dyfodol.

Yna, aethom ati i greu amcanion ar gyfer cynllun gwella arfaethedig yr A494 dros Afon Dyfrdwy:

- Cynnal pont dros Afon Dyfrdwy yr A494 trwy adeiladu pont newydd
- Cryfhau capaciti'r A494 i wella amseroedd teithio a darparu ar gyfer twf yn y dyfodol
- Lleihau effeithiau andwyol ar yr amgylchedd a'r gymuned leol, i wella iechyd a lles trigolion lleol
- Lleihau effaith adeiladu ar drigolion lleol, busnesau a defnyddwyr ffyrdd
- Sicrhau bod y cynllun yn cydymffurfio â safonau diogelwch a dylunio sy'n briodol ar gyfer ffordd strategol
- Cysylltu cymunedau trwy gefnogi mynediad i ddefnyddwyr nad ydynt yn rhai modur



Cynnal swyddogaeth croesfan Afon Dyfrdwy yr A494 trwy adeiladu pont newydd

Maintain the function of the A494 River Dee crossing by building a new bridge




Lleihau effeithiau andwyol ar yr amgylchedd a'r gymuned leol, i wella iechyd a lles trigolion lleol

Minimise adverse impacts on the environment and the local community, to improve the health and wellbeing of local residents



Sicrhau bod y cynllun yn cydymffurfio â safonau diogelwch a dylunio sy'n briodol ar gyfer ffordd strategol

Ensure the scheme conforms to safety and design standards which are appropriate for a strategic road



Gwella cadernid llwybr yr A494 i wella amseroedd teithio tra'n darparu ar gyfer twf yn y dyfodol

Improve the resilience of the A494 route to make journey times more reliable whilst providing capacity for future growth



Lleihau effaith adeiladu ar drigolion lleol, busnesau a defnyddwyr ffyrdd

Minimise the impact of construction on local residents, businesses and road users



Cysylltu cymunedau trwy gefnogi mynediad i ddefnyddwyr nad ydynt yn rhai modur

Connect communities by supporting access for non-motorised users

The Welsh Government and NMWTRA commissioned Mott MacDonald and their partners Richards, Morehead & Laing to look at options for replacing the A494 River Dee Bridge.

By working with key stakeholders such as local representatives, businesses and interest groups we developed an understanding of the current problems and issues experienced by users of the bridge and how these impact upon the local community. We also considered the challenges which may affect how the bridge is used in the future.

This understanding informed the development of the scheme objectives for the proposed A494 River Dee Crossing improvement scheme:

- Maintain the function of the A494 River Dee crossing by addressing the life expired bridge
- Improve the resilience of the A494 route to make journey times more reliable whilst providing capacity for future growth
- Minimise adverse impacts on the environment and the local community, to improve the health and wellbeing of local residents
- Minimise the impact of construction on local residents, businesses and road users
- Ensure the scheme conforms to safety and design standards which are appropriate for a strategic road
- Connect communities by supporting access for non-motorised users

Identifying the Preferred Scheme

Drwy ein dealltwriaeth o'r materion cyfredol a heriau yn y dyfodol, fe wnaethom nodi opsiynau posib ar gyfer cyflawni amcanion y cynllun.

Aseswyd yr opsiynau hyn gan ddefnyddio canllawiau gwerthuso trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, WelTAG, sy'n sicrhau bod cyllid y sector cyhoeddus yn cynnig:


- Gwerth da am arian;
- Manteision trafnidiaeth, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol; ac
- Y budd mwyaf posibl gydag effaith fach iawn.

Trwy broses o arfarnu dyluniad a pheirianneg, trafnidiaeth a'r amgylchedd, aseswyd yr opsiynau hyn i nodi rhestr fer o bedwar opsiwn. Ar ôl ymgynghori gyda'r rhanddeiliaid, dewiswyd y cynllun sy'n cyflawni amcanion y cynllun orau.

Byddai'r cynllun a ffefrir yn gwella amseroedd teithio, tra'n mynd i'r afael â materion ansawdd aer i wella iechyd a lles triglion lleol. Mae'r cynllun dewisol hefyd yn cael yr effaith leiaf yn ystod y gwaith adeiladu o'i gymharu â'r opsiynau eraill.

Ymgynghoriad gyda'r rhanddeiliaid : Stakeholder Consultation

Nodi'r Problem / Gosod Amcanion : Problem Identification / Objective Setting						
Gosod Amcanion	Objective Setting					
Rydym wedi cytuno ar amcanion y cynllun sy'n ystyried cynyddu capaciti Croesfan Afon Dyfrdwy, gwella amser teithio a lleihau tagfeydd, cyfarfod ag anghenion cerddwyr a beicwyr, lliniaru effeithiau adeiladu yn ogystal â lleihau effeithiau amgylcheddol.	We have agreed on the objectives of the scheme which consider providing resilience for the River Dee Crossing, improving journey time and reducing congestion, the needs of pedestrians and cyclists, impact of construction as well as environmental impact.					
Digwyddiad Gwybodaeth Cyhoeddus : Public Information Event						
Nodi ac Asesu'r Rhestr Hir o Opsiynau : Identification and Assessment of the Long List of Options						
Asesu'r Rhestr Fer o Opsiynau : Assessment of Short List of Options						
Opsiwn / Option A	Opsiwn / Option B	Opsiwn / Option C	Opsiwn / Option D			
<ul style="list-style-type: none"> Croesfan newydd dros yr afon (gan aildefnyddio rhannau o'r bont bresenol) Tair lôn a llain galed hyd at y bont reilffordd drwy ledur A494 bresennol Cadw'r bont reilffordd a chulhau'r lonydd Darpariaeth gyfyngedig i gerddwyr a beicwyr Amhariad mawr yn ystod y cyfnod adeiladu Y dewis rhataf 	<ul style="list-style-type: none"> Croesfan newydd dros yr afon (gan aildefnyddio rhannau o'r bont bresenol) Tair lôn a llain galed hyd at gyffordd Queensferry drwy ledur A494 bresennol Ail adeiladu'r bont reilffordd gyda strwythur lletach Darpariaeth gyfyngedig i gerddwyr a beicwyr Amhariad mawr yn ystod y cyfnod adeiladu Dewis drutach 	<ul style="list-style-type: none"> Croesfan newydd dros yr afon (gan aildefnyddio rhannau o'r bont bresenol) Tair lôn a llain galed hyd at gyffordd Queensferry Ffordd ar Iwybr newydd tua'r gorllewin gyda phont reilffordd newydd Darpariaeth lawn i gerddwyr a beicwyr Llai o amhariad yn ystod y cyfnod adeiladu Drutach 	<ul style="list-style-type: none"> Croesfan newydd dros yr afon, tair lôn a llain galed hyd at gyffordd Queensferry Ffordd ar Iwybr newydd tua'r gorllewin gyda phont reilffordd newydd Darpariaeth lawn i gerddwyr a beicwyr Llai o amhariad yn ystod y cyfnod adeiladu Yr opsiwn drutaf 			
<ul style="list-style-type: none"> New river crossing (partly reuse existing) Three lanes and hard shoulder up to the NR bridge by widening existing A494 NR bridge remains with reduced lane widths Limited pedestrian and cyclist provision Major disruption during construction Cheapest 	<ul style="list-style-type: none"> New river crossing (partly reuse existing) Three lanes and hard shoulder up to the Queensferry junction by widening existing A494 NR bridge replaced with wider structure Limited pedestrian and cyclist provision Major disruption during construction More expensive 	<ul style="list-style-type: none"> New river crossing (partly reuse existing) Three lanes and hard shoulder to Queensferry junction New offline carriageway for westbound traffic with a new NR bridge Full pedestrian and cyclist provision Minimal disruption More expensive 	<ul style="list-style-type: none"> Offline new river crossing three lanes and hard shoulder to Queensferry junction New offline carriageway for westbound traffic with a new NR bridge Full pedestrian and cyclist provision Minimal disruption Most expensive. 			
Opsiwn a Ffefrir Preferred Option						
Ymgynghoriad Cyhoeddus ar yr Opsiwn a Ffefrir : Public Consultation on the Preferred Option						



Through our understanding of the current issues and future challenges, we identified potential options which aim to deliver the scheme objectives.

These options were assessed using the Welsh Government's transport appraisal guidance, WelTAG, which ensures public sector funding offers:

- Good value for money;
- Transport, economic, social and environmental benefits; and
- Maximum benefit with minimal impact.

Through a process of design and engineering, transport and environmental appraisal these options were assessed to identify a short list of four options. Through further refinement of the short list and consultation with stakeholders, a preferred scheme was selected which best delivers the scheme objectives.

The preferred scheme would improve journey times and make trips more reliable, whilst addressing air quality issues to improve the health and wellbeing of local residents. The preferred scheme also has the least impact during construction when compared with the other options.

Rydym wedi nodi ein dewis ar gyfer pont newydd yr A494 dros Afon Dyfrdwy ac rydym yn ceisio'ch adborth ar ein cynllun arfaethedig.

Mae'r cynllun arfaethedig yn cynnwys dwy bont i gludo traffig tua'r dwyrain a'r gorllewin. Bydd y ffordd tua'r dwyrain yn defnyddio pileri cynnal y bont presennol ynghyd â dec newydd. Mae'r ffordd tua'r gorllewin yn strwythur hollol newydd gyda llwybr a rennir ar gyfer beicwyr a cherddwyr.

Prif nodweddion y cynllun arfaethedig yw:

Tair lôn i bob cyfeiriad i gynyddu capaciti a gwella llif traffig ar yr A494.

Llain galed i bob cyfeiriad i wella diogelwch a lleihau'r tagfeydd pan fo cerbydau'n torri lawr.

Pont rheilffordd newydd i gario rheilffordd Caer i Gaergybi dros y ffordd arfaethedig tua'r gorllewin.

Ffordd fynediad newydd i gysylltu Chemistry Lane gyda'r ardal i'r dwyrain o'r A494 ac i'r gorllewin o'r afon. Byddai hon yn disodli'r ffordd fynediad is-safonol bresennol oddi ar yr A494 a fyddai'n cael ei chau.

Llwybr a rennir i gerddwyr a beicwyr ochr yn ochr â'r ffordd newydd tua'r gorllewin a fydd yn cysylltu â Llwybr Arfordir Cymru. Bydd llwybr a rennir ar gyfer beicwyr a cherddwyr hefyd yn cael ei greu ar Chemistry Lane i gysylltu â Llwybr yr Arfordir a rhoi mynediad i Station Lane, o dan yr A494.



We have identified our preferred option to replace the current A494 River Dee crossing and are seeking your feedback on our proposed scheme.

The proposed scheme consists of two bridges to carry eastbound and westbound traffic. The eastbound carriageway will make use of the current A494 bridge's supporting piers combined with a new deck. The westbound carriageway is a completely new structure with a shared path for cyclists and pedestrians.

The key features of the proposed scheme are:

Three lanes in each direction to increase capacity and improve traffic flows on the A494.

A hard shoulder in each direction to deliver safety benefits and reduce the congestion associated with break-downs.

A new rail bridge to carry the Chester to Holyhead railway line over the proposed new A494 westbound carriageway.

A new access road to connect Chemistry Lane with the area east of the A494 and west of the river. This has been provided to replace the current sub-standard access off the A494 which would be closed.

A shared path for pedestrians and cyclists alongside the westbound carriageway which will connect with the current Wales Coast Path. A shared path for cyclists and pedestrians will also be created on Chemistry Lane linking in to the Coast Path and providing access to Station Lane, under the A494.

Y Cynllun Arfaethedig

The Proposed Scheme





Rheoli Effaith y Cynllun

Managing the Impact of the Scheme

Effeithiau Amgylcheddol

Mae deall effaith y cynllun arfaethedig ar yr amgylchedd a'r gymuned yn rhan bwysig o'n gwaith, er mwyn i ni leihau effeithiau negyddol a nodi cyfleoedd i wella'r amgylchedd lle gallwn ni.

Rydym wedi nodi'r cyfyngiadau amgylcheddol a ddangosir ar y cynllun hwn, ac rydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon wrth ddatblygu ein cynigion. Mae Asesiad Effaith Amgylcheddol llawn yn cael ei gynnal, gan ymgynghori â chyrrf statudol ac eraill. Mae asesiadau ffurfiol eraill ar gyfer safleoedd a chynefinoedd dynodedig ar y gweill.

Drwy leihau tagfeydd a gwella capaciti pont yr A494 dros Afon Dyfrdwy, gallwn wella ansawdd yr aer a lleihau sŵn traffig i drigolion sy'n byw ger y cynllun arfaethedig. Rydym yn asesu effeithiau sŵn a llwch, creu cynefinoedd a gwaith gwella tirwedd, datblygu cynigion ar gyfer adeiladu yn Afon Dyfrdwy ac ardaloedd gwarchodedig eraill a dylunio darpariaeth well ar gyfer cerddwyr a beicwyr.

Effeithiau Adeiladu

Roedd yr angen i leihau effaith y gwaith adeiladu ar yr A494 a'r rhwydwaith prifffydd lleol yn ystyriaeth allweddol wrth ddewis y bont orau ar gyfer yr A494.


Mae'r cynllun arfaethedig yn cael yr effaith leiaf yn ystod y gwaith adeiladu o'i gymharu â'r opsiynau eraill ar y rhestr fer gan y bydd y ffordd newydd tua'r gorllewin yn cael ei hadeiladu ar wahân heb effeithio ar yr A494 presennol. Unwaith y bydd y ffordd tua'r gorllewin wedi'i chwblhau, caiff yr A494 ei ailgyfeirio i'r strwythur newydd fel y gellir ymgymryd â gwaith ar y ffordd tua'r dwyrain.

Bydd gwaith i gysylltu y ddwy lôn yn digwydd yn ystod y nos er mwyn amharu cyn lleied ag y bo modd.

Yn ystod y cyfnod adeiladu, bydd cerddwyr a beicwyr yn cael eu dargyfeirio oddi wrth y gwaith.

Er mwyn inni allu adeiladu pont rheilffordd newydd, bydd angen cau Rheilffordd Caergybi i Gaer dros dro ac rydym eisoes mewn cysylltiad â Network Rail ynghyd â hyn.

Rhagwelir y bydd adeiladu'r cynllun arfaethedig yn cymryd tua dwy flynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn cynnal dwy lôn o draffig i bob cyfeiriad ac eithrio rhai cyfyngiadau byr iawn ar gyfer gwaith penodol. Fodd bynnag, bydd angen cyfyngiadau cyflymder dros dro yn ystod y gwaith.



Environmental Impacts

Understanding the impact of the proposed scheme on the environment and community is an important part of our work, so that we minimise negative effects and identify opportunities to improve the surroundings where we can.

We have identified the environmental constraints shown in this plan, and used this information when developing our proposals. A full Environmental Impact Assessment is being carried out, in consultation with statutory consultees and other bodies. Other formal assessments for designated sites and habitats are under way.

By reducing congestion and improving the resilience of the A494 River Dee crossing, we can improve air quality and reduce traffic noise for residents living near to the proposed scheme. We are assessing construction effects such as noise and dust, designing habitat creation and landscape improvement works, developing proposals for construction within the River Dee and other protected areas and designing improved provision for pedestrians and cyclists.

Construction Impacts

The need to minimise the impact of construction on the A494 and the local highway network was a key consideration when selecting our preferred option to replace the A494 crossing.

The proposed scheme has the least impact during construction when compared to the other short-listed options as the westbound carriageway will be built separately, without impacting upon the existing A494. Once the westbound carriageway is complete, the A494 will be redirected onto the new structure so that work on the eastbound carriageway can be undertaken.

Work to link the two carriageways will be completed at night to minimise disruption where possible.

During the construction period, pedestrians and cyclists will be diverted away from the works.

For us to be able to construct the new Network Rail bridge we will need closures of the Holyhead to Chester Rail Line and we are already liaising with Network Rail about this.

Construction of the proposed scheme is anticipated to take approximately two years. During this period we will maintain two lanes of traffic in each direction with the exception of some very short duration restrictions for particular operations. However, temporary speed restrictions will be required for the duration of the works.



Sut alla i roi sylwadau?

How can I comment?

Rydym am glywed eich barn chi am ein cynllun arfaethedig. Gallwn wedyn ystyried eich barn a'ch sylwadau wrth lunio'r dyluniad terfynol.

Mae sawl ffordd y gallwch wneud sylwadau:

- Llenwch y ffurflen ymateb ymgynghori a ddarperir yn y digwyddiad heddiw.
- Llenwch y ffurflen ymateb ar-lein yn <https://beta.llyw.cymru/cynllun-gwella-pont-afon-dyfrdwy-a494>
- E-bostiwch NMWTRA enquiries@nmwtra.org.uk / ymholiadau@acgcc.org.uk - dylech gynnwys '**Cynllun Gwella Pont Afon A494**' yn y llinell bwnc.
- Yn ysgrifenedig i: **Cynllun Gwella Pont A494 Afon Dyfrdwy**, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Adeiladau'r Llywodraeth, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, LL31 9RZ

Cyflwynwch eich ymateb erbyn hanner nos **ddydd Llun 4 Chwefror 2019**.


Camau nesaf

Byddwn yn adolygu'r holl sylwadau ac awgrymiadau ar ôl i ffenestr adborth yr ymgynghoriad gau. Bydd y rhain yn cael eu dadansoddi a'u hystyried fel rhan o'r broses ddylunio. Byddwn hefyd yn cynhyrchu adroddiad i grynhai'r ymatebion adborth.

Mae'r darlun yn dangos ein rhaglen waith. Ar hyn o bryd rydym yn y Ymgynghoriad Cyhoeddus.

Bydd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun yn cael ei darparu ar wefan prosiect Llywodraeth Cymru:

<https://beta.llyw.cymru/pont-afon-dyfrdwy-yr-a494-trosolwg>



We want to hear what you think about our proposed scheme. We can then consider your views and comments when shaping the final design.

There are several ways you can comment:

- Complete the consultation response form provided at the event today.
- Complete the response form **online** at <https://beta.gov.wales/a494-river-dee-bridge-improvement-scheme>
- **Email** NMWTRA enquiries@nmwtra.org.uk / ymholiadau@acgcc.org.uk - please include 'A494 River Dee Bridge Improvement Scheme' in the subject line.
- **In writing to:** A494 River Dee Bridge Improvement Scheme, Transport, Welsh Government, Government Buildings, Sarn Mynach, Llandudno Junction, LL31 9RZ

Please submit your response by midnight **Monday 4th February 2019**.

Next Steps

We will review all comments and suggestions once the consultation feedback window is closed. These will be analysed and considered as part of the design process. We will also produce a report to summarise the feedback responses.

The diagram shows our programme of work, we are currently at the Public Consultation stage.

Updates on the scheme's progress will be provided on the Welsh Government's project website:

<https://beta.gov.wales/a494-river-dee-bridge-overview>

